# *Cyngor Sir Ynys Môn*
# Adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio – 25 Gorffennaf 2011

*25 Gorffennaf 2011*

***Y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig***

*Rydym yn cynnal ein harchwiliad yn unol â Chod Ymarfer Archwilio (y Cod) Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010. Caiff hwn ei ategu gan y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005. Mae'r ddwy ddogfen ar gael gan Brif Weithredwr pob corff archwiliedig. Diben y datganiad hwn yw cynorthwyo archwilwyr a chyrff archwiliedig drwy esbonio cwmpas cyfrifoldebau archwilwyr, a'r hyn a ddisgwylir gan gyrff archwiliedig mewn meysydd penodol. Paratoir ein hadroddiadau a'n llythyrau yng nghyd-destun y datganiad hwn ac yn unol â'r Cod.*

*Caiff yr adroddiadau a'r llythyrau a baratoir gan archwilwyr a benodwyd a'u cyfeirio at aelodau neu swyddogion eu paratoi at ddefnydd y corff archwiliedig yn unig, ac nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr archwilwyr i unrhyw Aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.*

pwc

# *Tabl Cynnwys*

Datganiad am sefyllfa archwiliad 2010/11 ... 3
- Gwaith arall ... 4
- Grantiau ... 4

Materion eraill ... 5
- Paratoi cyfrifon 2010/11 ... 5
- Trefniadau cydlynu ... 5

# Datganiad am sefyllfa archwiliad 2010/11

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr archwiliad yn erbyn y cerrig milltir allweddol a nodir yn Strategaeth Archwilio 2010/11 a gwaith perfformiad arall y gofynnwyd amdano gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

| Cynllun archwiliad 2010/11 | Erbyn | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| **Cynllunio archwiliadau a chyflwyno adroddiadau** | | |
| Strategaeth archwilio | Mai 2011 | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2011. |
| Llythyr blynyddol | Tachwedd 2011 | I'w gyflwyno ar ôl cwblhau'r archwiliad yn Adroddiad Gwella Blynyddol SAC. |
| **Cyfrifon** | | |
| Adolygiad interim a chynllunio'r archwiliad o'r cyfrifon | Mai 2011 | Mae ein hadolygiad interim a'r gwaith o gynllunio'r archwiliad wedi'u cwblhau i raddau helaeth, ar yr amod y cwblheir ein gwaith ar y systemau TG a'r materion cyfredol a amlinellir yn yr adran 'Paratoi cyfrifon 2010/11'. Hyd yma, mae ein hadolygiad o'r systemau allweddol wedi nodi gwendidau o ran rheolaethau y mae'r gwasanaeth archwilio mewnol eisoes wedi rhoi gwybod i chi amdanynt, felly ni fyddwn yn ailadrodd yr argymhellion hyn. Cewch wybod am unrhyw wendidau o ran rheolaethau a nodir yn ystod yr archwiliad terfynol nad ydynt wedi'u nodi eisoes yn ein hadroddiad archwilio terfynol. |
| Profi datganiadau ariannol | Gorffennaf – Medi 2011 | Gweler yr adran 'Paratoi cyfrifon 2010/11'. Rydym wedi rhoi rhestr o'r hyn y mae angen ei gyflwyno i'w archwilio i reolwyr. |
| Adroddiad ar y cyfrifon terfynol (ISA 260) | Medi 2011 | Gweler yr adran 'Paratoi cyfrifon 2010/11'. |
| Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Medi 2011 | Gweler yr adran 'Paratoi cyfrifon 2010/11'. |
| **Perfformiad** | | |
| Cyfraniad i Fesur Llywodraeth Leol SAC | Yn mynd rhagddo | Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a bydd yn parhau drwy gydol y flwyddyn ar wahanol agweddau ar y Mesur Llywodraeth Leol. |
| Archwiliad o ddangosyddion perfformiad | Gorffennaf 2011 | Gwaith i'w gwblhau erbyn 15 Gorffennaf 2011. |
| Gwaith dilynol ar argymhellion archwiliad blaenorol | Gorffennaf 2011 | Gwaith i'w gwblhau yn ystod yr archwiliad interim a'r archwiliad o'r cyfrifon terfynol. |
| Casgliad gwerth am arian | Medi 2011 | Gwaith i'w gwblhau yn ystod yr archwiliad interim a'r archwiliad o'r cyfrifon terfynol. |
| Archwiliad o'r Cynllun Gwella | Tachwedd 2011 | Gwaith i'w gwblhau yn ystod mis Tachwedd 2011 a chaiff ei gynnwys yn Adroddiad Gwella Blynyddol SAC. |

# Gwaith arall

Ar gais rheolwyr gohiriwyd nifer o adolygiadau perfformiad a gynhwyswyd yng Nghynllun Rheoleiddio 2008/09 er mwyn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar ganlyniadau'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol. Cyflwynwyd adroddiad ar yr holl waith ac eithrio ein hadolygiad o gwynion, ond mae'r gwaith maes wedi'i gwblhau yn hyn o beth. Byddwn yn cyflwyno adroddiad drafft i reolwyr maes o law.

# Grantiau

Rydym yn parhau i gynnal ein harchwiliadau grant drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r cydlynydd grantiau a benodwyd gan y Cyngor a gwnaethom gynnal gweithdy hyfforddiant grantiau i swyddogion ar 6 Gorffennaf 2011. Mae statws y gwaith grant fel a ganlyn:

**Grantiau 2007/08:**
Rydym wedi derbyn nifer o gwestiynau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ynghylch y cais am gymhorthdal budd-dal tai a chymhorthdal treth gyngor yn 2007/08. Ardystiwyd y cais ym mis Gorffennaf 2009, ond roedd sawl amod cymhwyso. Ers hynny mae DWP wedi cyfeirio nifer o gwestiynau ynghylch yr amodau cymhwyso atom ni ac mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith mewn meysydd penodol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â cheisiadau coll, er enghraifft. Rydym wrthi'n ymateb i'r cwestiynau diweddaraf ar hyn o bryd.

**Grantiau 2009/10:**
Mae pob cais am grant yn 2009/10 wedi'i ardystio ac eithrio'r cymhorthdal budd-dal tai a threth gyngor a rheoli gwastraff cynaliadwy. Rydym yn aros am wybodaeth gan y Cyngor mewn perthynas â'r rhain.

**Grantiau 2010/11:**

Rydym wedi dechrau archwilio ffurflen Ardrethi Annomestig Cenedlaethol 3 a'r grantiau ardaloedd adfywio strategol. Cynhelir y rhan fwyaf o'r gwaith ardystio grantiau dros yr haf a'r hydref yn unol â therfynau amser a bennwyd gan gyrff ariannu, yn bennaf Llywodraeth Cymru.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Cyngor wneud rhagor o waith ar y cais Cymorth o ganlyniad i faterion a godwyd yn llythyr cymhwyso'r archwiliad ar gyfer 2009/10, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- ni allai'r Cyngor ddarparu tystiolaeth o gytundeb ysgrifenedig gyda sefydliadau partner o ran y telerau ac amodau, y dangosyddion perfformiad a'r targedau sy'n gysylltiedig â'r grant. Roedd hyn yn wir mewn perthynas â phob un o'r tri achos o brofwyd.
- ni allai'r Cyngor ddarparu tystiolaeth, mewn perthynas â phob sefydliad partner, mai dim ond gwariant cymwys yr aed iddo a bod cyfanswm y grant a dalwyd iddo wedi'i wario.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Cyngor yn nodi ei fod yn cadw arian Cymorth 2011/12 (£1.2m yn 2009/10) yn ôl nes i'r gwaith ychwanegol gael ei gwblhau. Yn gyntaf, mae hyn yn cynnwys y gofyniad am ymateb ysgrifenedig mewn perthynas â'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad archwilio i fynd i'r afael â'r methiannau hyn. Yn ail, rhoi copi o'r cytundebau partneriaeth i Lywodraeth Cymru ac i ni, fel archwilwyr, neu rhoi gwybod i ni erbyn pryd y caiff y rhain eu llunio a'u derbyn gan bob partner. Ac yn olaf cael gafael ar yr adroddiadau monitro sydd ar goll a chadarnhau bod y Cyngor wedi cynnal yr hapwiriadau cywir gyda sefydliadau partner i safon gyson.

# Materion eraill

Mae'r canlynol yn nodi'r materion a godwyd yn ein gwaith ers y cyfarfod diwethaf er gwybodaeth i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

## *Paratoi cyfrifon 2010/11*

Ym mis Mehefin, cawsom wybod gan swyddogion nad oedd y Cyngor yn debygol o gyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon drafft nas archwiliwyd ar gyfer 2010/11 erbyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2011. Ysgrifenasom at y Swyddog Adran 151 ar 16 Mehefin 2011 yn amlinellu'r gofynion ar gyfer y Cyngor a'r goblygiadau i ni fel archwilwyr.

O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 ('y Rheoliadau'), os na all y Cyngor gydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon erbyn 30 Mehefin 2011, dylid cymryd y camau canlynol:

- cyhoeddi datganiad ar unwaith yn nodi'r rhesymau dros fethu â chydymffurfio;
- cytuno ar gamau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth mor fuan ag sy'n ymarferol.

Yn unol â hynny, gwnaethom nodi yn ein llythyr ein bod yn disgwyl i'r Cyngor ddrafftio datganiad i'w gyhoeddi cyn gynted â phosibl. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y swyddog Adran 151 ddatganiad yn amlinellu'r rhesymau dros fethu â chydymffurfio.

Yn ein llythyr, nodwyd ein bod wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio yn ein cynllun archwilio y bydd ein harchwiliad yn dechrau ym mis Gorffennaf 2011, gyda therfyn amser o 30 Medi 2011 ar gyfer cyhoeddi ein barn ar y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011. Gan y bydd yn rhaid i ni aros am y cyfrifon, caiff hyn effaith sylweddol ar ein gallu i fodloni'r terfyn amser hwnnw ym mis Medi.

Rydym eisoes wedi adolygu ein hadnoddau ac wedi dod i'r casgliad y bydd angen aildrefnu 5 wythnos o waith archwilio a gynlluniwyd ar gyfer mis Gorffennaf. Rydym yn amcangyfrif y bydd angen 9-10 wythnos arnom ar ôl i ni dderbyn yr holl wybodaeth a'r papurau gwaith ategol er mwyn cwblhau'r archwiliad terfynol. Bydd colli tair wythnos o ddechrau'r archwiliad yn rhoi pwysau ar amserlen yr archwiliad a bydd angen cryn ymrwymiad gan swyddogion i ymateb i ymholiadau'r archwiliad yn gyflym, a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ac yn peri risgiau ychwanegol o ran bodloni'r terfyn amser.

At hynny, os byddwn yn dod ar draws problemau sylweddol yn ystod yr archwiliad, ni fyddwn yn gallu bodloni'r terfyn amser ym mis Medi.

Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Gadeirydd y Pwyllgor os down yn fwyfwy pryderus ynghylch ansawdd y cyfrifon pan fyddwn wedi'u derbyn.

## *Trefniadau cydlynu*

### â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth archwilio mewnol i sicrhau dull archwilio effeithiol. Rydym yn parhau i gyfarfod â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i drafod hynt gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2010/11 ac rydym wedi adolygu ei waith yr ydym am ddibynnu arno a chafwyd y gallwn barhau i ddibynnu ar waith y gwasanaeth archwilio mewnol at ddibenion ein harchwiliad o ddatganiadau ariannol.

### â rheolwyr

Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â rheolwyr i sicrhau ein bod yn deall y materion allweddol a wynebir gan y Cyngor er mwyn asesu eu heffaith ar ein dull archwilio.

## â chomisiynwyr

Rydym wedi cyfarfod â chomisiynwyr i drafod materion sy'n berthnasol i'n rôl fel archwilwyr allanol, ac wedi cyfarfod â chomisiynwyr a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel rhan o asesiad corfforaethol SAC ac i drafod effaith ehangach y gwaith o reoleiddio'r Cyngor yn ystod deiliadaeth y comisiynwyr.

## â SAC

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda SAC. Ers y pwyllgor archwilio diwethaf rydym wedi cyfarfod â SAC i drafod ei hasesiad corfforaethol sydd ar y gweill sy'n rhan o ofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

Mae ein gwaith ar ymchwiliad hirfaith i honiadau ynghylch gweinyddu grant tai gwag a grant gwella trefi yn parhau a gwnaethom gyfarfod â cheisydd y grant ar 24 Mehefin 2011 ac mae cyfweliadau pellach wedi'u cynllunio dros yr wythnosau nesaf.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw'r deiliad, Cyngor Sir Ynys Môn, at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cod hwn yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau lleol wrth ymdrin â cheisiadau, fel ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae trydydd partïon perthnasol yn cynnwys PricewaterhouseCoopers LLP ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i infoofficer@wao.gov.uk.

© 2011 PricewaterhouseCoopers LLP. Cedwir pob hawl. Mae “PricewaterhouseCoopers” yn cyfeirio at PricewaterhouseCoopers LLP (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y Deyrnas Unedig) neu, gan ddibynnu ar y cyd-destun, gwmnïau eraill sy'n aelodau o PricewaterhouseCoopers International Limited, y mae pob un ohonynt yn endid cyfreithiol annibynnol ac ar wahân.

Diogelir yr adroddiad hwn o dan gyfreithiau hawlfraint y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Ni chaniateir defnyddio'r wybodaeth hon, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, na'i datgelu heb ganiatâd ysgrifenedig PricewaterhouseCoopers LLP.

C11260